Dosbarth Celyn –
Blwyddyn 1

Dosbarth Celyn - Blwyddyn 1

Tymor yr Hydref - Fi yw Fi!

Dosbarth Celyn - Year 1 - Autumn Term

Fi yw Fi!

Trosolwg Tymor yr Hydref

Y tymor hwn yn Nosbarth Celyn, byddwn yn cychwyn ar daith gyffrous i ddysgu mwy am bwy ydym ni a beth sy'n ein gwneud ni'n arbennig ac yn unigryw. Byddwn yn dysgu am ein cyrff a'n synhwyrau a sut i ofalu am ein hiechyd a'n lles. Byddwn yn archwilio beth sydd angen ar ein cyrff er mwyn tyfu a chadw'n iach, yn ogystal ag edrych ar sut rydym wedi newid a datblygu ers cael ein geni. Byddwn yn trafod y bobl sy'n gwneud i ni deimlo'n saff ac sy'n gofalu amdanom gartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned. Yn ogystal, byddwn yn dysgu am fywydau pobl Hindŵaidd, gan gymharu tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu bywyd nhw a'n bywydau ni, er mwyn datblygu dealltwriaeth a pharch at ddiwylliannau a chredoau gwahanol o fewn ein cymuned.

Drwy'r thema hwn, byddwn yn annog y plant i ddathlu eu hunaniaeth eu hunain, datblygu hyder wrth rannu eu profiadau, a dysgu am bwysigrwydd gofalu amdanynt eu hunain ac am eraill. Drwy straeon, trafodaethau a gweithgareddau ymarferol, bydd y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau i archwilio a darganfod gan ail-ymweld â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol, ac adeiladu arno.

Autumn Term Overview

This term in Celyn Class, we will begin an exciting journey to learn more about who we are and what makes us special and unique. We will learn about our bodies and our senses, and how to look after our health and wellbeing. We will explore what our bodies need in order to grow and stay healthy, as well as looking at how we have changed and developed since we were born. We will discuss the people who help us feel safe and who care for us at home, at school and within the community.
In addition, we will learn about the lives of Hindu people, comparing similarities and differences between their lives and our own, in order to develop understanding and respect for different cultures and beliefs within our community.

Through this theme, we will encourage the children to celebrate their own identity, develop confidence in sharing their experiences, and learn about the importance of caring for themselves and others. Through stories, discussions and practical activities, the children will have a variety of opportunities to explore and discover, revisiting and building upon their previous skills, knowledge and understanding.

Llyfrau Darllen / Reading Books

Ym Mlwyddyn 1, bydd gan eich plentyn ddiwrnod darllen newydd. Cofiwch ddod â llyfr darllen a chofnod darllen eich plentyn i'r ysgol ar y diwrnod a nodir yn ei gofnod darllen.

In Year 1, your child will have a new reading day. Please bring your child's reading book and reading record book into school on the day indicated in their reading record book.



Gwaith Cartref

Pan fyddant yn barod, bydd y plant yn derbyn gwaith cartref wythnosol sy'n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys geiriau sillafu, gweithgareddau CLIC, tasgau darllen ac ymarfer llawysgrifen. Byddant hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio Numbots a Darllen Co yn rheolaidd gartref.




When they are ready, children will receive weekly homework focusing on literacy and numeracy skills, including spelling words, CLIC activities, reading tasks and handwriting practise. They will also be encouraged to use Numbots and Darllen Co regularly at home.

Rhifedd / Numeracy

Ymarferwch gyfri yn ôl ac ymlaen fesul un o rifau gwahanol. Ymarferwch gyfri ymlaen fesul 2, 5 a 10. Darllenwch rifau dau ddigid at 100. Defnyddiwch adnoddau i ddod yn gyfarwydd gyda ffeithiau adio, tynnu a dyblau syml. Dewch a Mathemateg i mewn i sefyllfaoedd a sgyrsiau dyddiol.

Practise counting backwards and forwards from different numbers. Practice counting forwards in 2s, 5s, and 10s. Read two-digit numbers up to 100. Use resources to become familiar with simple addition, subtraction, and doubles facts. Bring Maths into everyday situations and conversations.



Ymarfer Corff / P.E

Gofynnir i'r plant wisgo cit Ymarfer Corff cywir yr ysgol i'r ysgol bob dydd Mercher, gan ei bod yn bwysig bod pob plentyn wedi'i wisgo'n briodol ac yn gyson ar gyfer gwersi Ymarfer Corff.

Please wear the correct school P.E. kit to school every Wednesday, as it is important that all children are dressed appropriately and consistently for P.E. lessons.




Llythrennedd / Literacy


Parhewch i ymarfer synnau Tric a Chlic, Little Wandle a geiriau allweddol. Ymarferwch dorri geiriau i fewn i synnau a blendio synnau i greu geiriau. Manteisiwch ar gyfleoedd i fwynhau ysgrifennu at bwrpasau gwahanol fel rhestr siopa, cardiau cyfarch, bwydlen teulu, labelu gwrthrychau ogwmpas y cartref. Manteisiwch ar unrhyw gyfle i siarad Cymraeg!




Keep practicing Tric a Chlic and Little Wandle sounds, and key words in Welsh and English. Practice breaking words and blending sounds to make words. Take advantage of opportunities to enjoy writing for different purposes like a shopping list, greeting cards, family menu, labelling household objects. Take advantage of any opportunities to speak Welsh!


Llenyddiaeth / *Literature*

























Profiadau sy'n ennyn diddordeb

Engaging Experiences

Rhiant gyda babi - sesiwn holi ac ateb / Parent and baby – question and answer session



Dathlu Doniau - gwerthu a chreu cynnyrch / Making and selling a product



Taith i'r Deml Hindwaeth lleol / A trip to the local Hindu Temple



Gwasanaeth Cynhaeaf ysgol gyfan / Whole school Harvest Festival



Cyngerdd Nadolig / Christmas Concert



Ymweliad gan e.e deintydd neu ymwelydd iechyd /A visit from a dentist or health visitor



Plannu winwns / Planting onions



Swydd Froebelaidd - Clai / Froebelian occupation - Clay



